

## “Hysbys y dengys dyn...”

*“Dyma fy ngorchymyn i: carwch eich gilydd fel y cerais i chwi.” (adn. 12)*

### Beth am ddarllen Ioan 15:1–17 ac yna myfyrio

Mae'n bosibl i achosion fel achos Ioan Marc, achosion sydd yn debyg o greu gwahaniaeth, gael eu hadfer, ond i sylweddoli hyn rhaid i ni ein ymrwymo ein hunain i'r Arglwydd Iesu. A oedd Paul a Barnabas wedi ymrwymo felly? Wrth gwrs. Mae'n amhosibl esbonio eu gwaith a'u llwyddiant cenhadol heb sylweddoli eu perthynas agos â Iesu. Ond, ac mae'n siŵr y medr sawl Cristion addef hyn o brofiad, un o'r profion mwyaf ar ein perthynas â Iesu yw'r adegau hynny pan elwir arnom i ddelio â sefyllfaoedd anodd yn ein perthynas â phobl.

Dywedodd un cenhadwr wrthyf unwaith: “Gallaf deithio am ddiwrnodau, delio gyda bwyd di-flas, delio gyda pheidio â chysgu, ond paid â gofyn i mi eistedd i lawr mewn cymdeithas â chenhadwr arall yn yr un man. Mae hyn yn debyg o fy nghythraddo ac nid wyf yn gwybod pam.” Pam tybed fod y cenhadwr yn dweud y fath beth? Oherwydd mae perthynas â phobl yn medru arwain at gymaint o broblemau. Os ydych am roi prawf ar eich perthynas â Iesu, peidiwch ag edrych yn gymaint ar yr hyn yr ydych yn ei wneud er mwyn Iesu, ond edrychwch yn hytrach ar eich perthynas â phobl Iesu. Mae'n siŵr ein bod ni i gyd yn gallu tystio mai yma y byddwn ar ein gwanaf. Mae geiriau Iesu yn y testun heddiw yn rai o'r geiriau mwyaf heriol yn y Testament Newydd: “Carwch eich gilydd fel y cerais i chwi.” Mae'n siŵr ei bod yn haws i garu'r Arglwydd Iesu Grist na charu rhai o'i blant.

A yw'n dilyn, felly, os ydym yn caru eraill na fyddwn byth yn anghytuno â hwy? Nac ydyw. Mae'n afresymol i gredu na fyddwn byth yn anghytuno, ond fe allwn anghytuno heb greu cynnwrf a dichter. Dyma'r her sydd yn ein hwynebu. Cafodd Paul a Barnabas anhawster yn hyn. Fe gawn ninnau anhawster hefyd. Ond fel y dywedwyd ddoe, fe allwn ddysgu o'n camgymeriadau, a gall ein camgymeriadau fod yn adeiladol. Gall camgymeriadau arwain at aeddfedrwydd ysbrydol.

### Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Eff. 3:14–19; 4:15–16; 5:2; Col. 2:2; 1 Thes. 3:12–13

### Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut mae profi cyflawnder cariad Duw?
2. Sut mae corff Crist yn cael ei adeiladu?

### Gweddi

O Dad, cynorthwya fi i garu eraill gyda'r un cariad sydd yn nodweddu fy mherthynas â thi. Diolch nad wyt ti byth yn peidio â'm caru. Arglwydd, cynorthwya fi i ddiogelu cariad, ac os byddaf yn methu, caniatâ fy mod yn gofyn am faddeuant ac yn peidio gadael i'r haul fachlud ar fy nigofaint. Yn enw Iesu. Amen.